Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

25 April 2024

Lisa Evans

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Safonau a Moeseg yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron / remotely via video conference, Dydd Mercher, 1 Mai 2024 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

**3. Eitem gyfrinachol**

Mae'r Swyddog Monitro wedi penderfynu bod Categori 8 o'r Rheolau Gweithdrefnau Mynediad at Wybodaeth yn berthnasol i'r adroddiad canlynol (eitem 4 a 5). Ar ôl ystyried darpariaeth Rheol 11.8 Rheolau Mynediad at Wybodaeth y Cyngor, ei barn ar brawf lles y cyhoedd oedd y byddai gwneud y wybodaeth hon yn gyhoeddus yn datgelu gwybodaeth ar unigolyn penodol ac y byddai'n caniatáu i wybodaeth fynd i'r parth cyhoeddus cyn i'r unigolyn gael cyfle i gyflwyno sylwadau yn ei chylch. Mae'r ffactorau hyn yn ei barn hi yn drech na'r budd o ddatgelu'r wybodaeth i'r cyhoedd ar hyn o bryd.
Gofynnwyd i aelodau ystyried y ffactorau hyn wrth benderfynu ar y prawf budd y cyhoedd, y mae'n rhaid iddynt benderfynu yn ei gylch wrth ystyried:
• a ddylai'r eitem eithriedig barhau i fod wedi'i heithrio, ac
• a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod.

**4. Atgyfeiriad oddi wrth Ombwdsmon Cymru (Tudalennau 3 - 58)**

Nid yw'r adroddiad sy'n ymwneud â'r eitem uchod i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 a 13 Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Lywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor, ar ôl cymhwyso'r Prawf Lles y Cyhoedd yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, bydd y cyhoedd a'r wasg yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn unol ag Adran 100B(2) o'r Ddeddf.

Wrth ddelio â'r eitemau, gofynnir i Aelodau ystyried a ddylid gwahardd y

cyhoedd a’r wasg o’r Cyfarfod.

**5. Atgyfeiriad oddi wrth Ombwdsmon Cymru (Tudalennau 59 - 114)**

Nid yw’r adroddiad sy’n ymwneud â’r eitem uchod i’w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y’i diffiniwyd ym mharagraff 12 a 13 Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y’i diwygiwyd gan Lywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor, ar ôl cymhwyso’r Prawf Lles y Cyhoedd yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, bydd y cyhoedd a'r wasg yn cael eu gwahardd o’r cyfarfod yn unol ag Adran 100B(2) o’r Ddeddf.
Wrth ddelio â’r eitemau, gofynnir i Aelodau ystyried a ddylid gwahardd y cyhoedd a’r wasg o’r Cyfarfod.

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi’r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i’r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio’r Gymraeg neu’r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Safonau a Moeseg**
**Weddill Aelodau’r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**